

Pennaeth Masnachol, Cyfoeth Naturiol Cymru

Gall lleoliad y swydd fod yn hyblyg, gyda theithio rheolaidd ledled Cymru yn hanfodol

Lleoliad

Gall lleoliad y swydd fod yn hyblyg, gyda theithio rheolaidd ledled Cymru yn hanfodol

Math o swydd

Swydd Barhaol

Sector

Llywodraeth Ganolog

Cyflog

Cyflog i'w drafod

Cleient

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeirnod

Gse45116

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n rhoi egni a deunyddiau craidd. Mae'n hanfodol i'n ffordd o fyw – yn cynnig swyddi, cyfleoedd hamdden ac ymlacio, a lleoliadau deniadol i fyw, gweithio a'u mwynhau. Mae'n rhan o'n diwylliant, ein hanes a'n dyfodol. Mae cyfleoedd anferthol i wella bywydau pawb – ond mae hyn ond yn bosibl os yw'r amgylchedd naturiol yn cael ei reoli'n gynaliadwy a'i gydnabod am y buddion y mae'n eu darparu.

Ni yw'r Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mwyaf, gyda 1,900 o aelodau staff dawnus ac ymroddedig yn gweithio ledled Cymru. Rydym yn cynghori Llywodraeth Cymru, diwydiant, y cyhoedd ehangach a sectorau gwirfoddol ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Mae ein gwaith yn amrywiol ac mae'n bwysig – rydym yn ymateb i 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol bob blwyddyn, yn rheoli 7 y cant o arwynebedd tir Cymru, ac yn diogelu pobl a'r amgylchedd drwy ein gwaith rheoleiddiol sy'n cwmpasu'r diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff.

Rydym yn chwilio am arweinydd sy'n canolbwyntio ar atebion, gyda hanes o weithio ar draws amrywiaeth eang o fodolau masnachol. Byddwch yn feddyliwr creadigol gyda hanes o ddarparu arloesedd o fewn y ddisgyblaeth fasnachol. Bydd cael cydsyniad pobl i'r daith hon yn hanfodol a byddwch yn amlygu'ch hun drwy eich sgiliau arwain. Rydym yn awyddus i symud ymlaen yn y ddisgyblaeth fasnachol, ond mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hyn gyda chymorth ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, felly bydd gwerthfawrogiad o'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle i ni edrych ar bethau'n wahanol, i nodi ffyrdd newydd o weithio a modelau darparu, ac i ymchwilio i ffyrdd creadigol i ddatblygu ac ehangu fel gweithrediad masnachol. Bydd deiliad y swydd uwch-arweinyddol hon yn cymryd yr awenau wrth nodi cyfleoedd masnachol i dyfu, wrth gydnabod ar yr un pryd yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo a'r agweddau sensitif a chymhleth sydd ynghlwm.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gatenbysanderson.com/job/GSe45113, neu os hoffech gael sgwrs gyfrinachol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch â Michael Dobson ar 020 7426 3968, neu Jemima Dalglish ar 07393 013 066.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 26 Tachwedd 2018 am 5pm.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Amserlen

Dyddiad Cau	Dydd Llun 26ain Tachwedd am 5yh
Cyfarfod Rhestr Hir	Dydd Llun 3ydd Rhagfyr 2018
Cyfweliadau Rhagarweiniol gyda GatenbySanderson	3ydd Rhagfyr – 7fed o Ionawr
Cyfarfod Rhestr Fer	w/d 7fed Ionawr 2019
Cyfweliadau Terfynol	Dydd Llun 21ain Ionawr 2019

Disgrifiad Swydd / Manyleb Person

I weld disgrifiad y swydd / neu'r fanyleb person ar gyfer rôl **Pennaeth Masnachol**

A wnewch fewngofnodi isod os gwelwch yn dda, neu rhowch ychydig o fanylion fel y gallwn gysylltu â chi yn y dyfodol

Diolch, Rydym wedi cynnwys y disgrifiad swydd / manyleb person ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill